

# Y Lleidr ar y Groes

**www.lambsongs.co.nz Gan Jill Kemp (Cyf. Susan Williams) Lluniau: Richard Gunther**




**Gwelodd a chlywodd dau leidr bopeth ddigwyddodd pan gafodd Iesu ei groeshoelio. Fe wnaeth un edifarhau a chael ei achub.**




**Cafodd Iesu ei groeshoelio rhwng dau ddyn drwg oedd yn cael eu cosbi am ddwyn pethau pobl eraill.**




**Hoeliodd filwr Rhufeinig eiriau ar y groes uwchben Iesu. Dyma oedd y geiriau, “Dyma Frenin yr Iddewon.”**



**Ymgrymodd rhai pobl yn y dyrfa i Iesu a gwneud hwyl am ei ben gan ddweud, “Wnaeth o achub eraill felly dewch i ni ei weld o’n achub ei hun, os mai ef ydy’r Meseia a addawyd gan Dduw.”**




**Dywedodd un o’r dynion drwg wrth Iesu, “ Os mai ti ydy’r Crist sydd wedi ei addo, yna achuba dy hun a ninnau hefyd.”**



**Roedd y lleidr arall yn difaru am yr holl bethau drwg roedd wedi eu gwneud. “Mae Duw yn gwybod ein bod ni’n haeddu ein cosbi am y pethau drwg rydan ni wedi eu gwneud ond dydy Iesu ddim wedi gwneud unrhyw beth o’i le.”**



**“Iesu, cofia fi pan wnei di ddod i dy deyrnas,”meddai’r lleidr. Atebodd Iesu, “Dwi’n dweud y gwir wrthyt ti y byddi di heddiw gyda mi ym mharadwys.”**



**Cafodd y lleidr faddeuant a llanwyd ei galon â heddwch a llawenydd oherwydd ei fod wedi credu mai Iesu oedd y Meseia, Mab Duw.**